# P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove
## Geiriad y ddeiseb

'Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Gynghori Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i:

- ddarparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr trwy gael ardaloedd addas ar gyfer parcio i'r ysbyty ar y safle ac ar dir fel yr ardal ddiffaith i'r gogledd o'r rhandiroedd gyferbyn ag Ysbyty'r Mynydd Bychan ar yr ochr arall i Eastern Avenue,
- datganoli rhai o'r gwasanaethau sydd eisoes ar safle'r Mynydd Bychan a
- pheidio â gwerthu tir ysbytai yng Nghaerdydd a'r ardal gyfagos ar gyfer tai.

2. Argymell bod Cyngor Sir Caerdydd yn:

- gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu pellach ar safle Ysbyty'r Mynydd Bychan oni bai bod uned yn cael ei symud o'r safle, a gaiff yr un effaith ar draffig
- peidio â chefnogi datblygiadau amlfeddiannaeth yn yr ardal a
- chyflwyno system parcio am gyfnod cyfyngedig yn y strydoedd sydd o fewn pellter cerdded i Ysbyty'r Mynydd Bychan.

3. Ystyried o fewn y Cynulliad, cyflwyno system a fyddai'n caniatáu i grwpiau lleol apelio i'r Cynulliad pan fydd y cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae'r trigolion yn ystyried a fydd yn gwaethygu'r broblem barcio yn yr ardal.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitionsold/admissible-pet/p-03-136.htm

**Cynigwyd gan:** Y Cynghorydd Ron Page

**Nifer y llofnodion:** 500+

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Bydd y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.